.

**Glanhäwr:**

## Ymunwch â Tîm Yr Harbourmaster, Aberaeron

**Amdanom ni:**
Mae'r Harbourmaster yn westy bwtîc bach wedi'i leoli yn nhref harbwr swynol Aberaeron, ar arfordir gorllewinol Cymru. Rydym yn cynnig profiad unigryw, agos-atoch ac wedi'i bersonoli, gan adlewyrchu cymeriad lleol, dyluniad chwaethus ac awyrgylch steilus. Ein nod yw darparu arhosiad arbennig a nodedig sy'n adlewyrchu'r ardal leol ac yn diwallu anghenion ein gwesteion, drwy roi sylw manwl i fanylion a chreu naws bwtîc. Rydym yn cynnig bwyd a diod o'r safon uchaf, sy'n cyfrannu at enw da ein gwesty hudolus ar lan harbwr Aberaeron.

**Y Rôl**:
Fel aelod o dîm bach, byddwch yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod ein hystafelloedd yn cael eu cyflwyno i'r safonau uchaf, gan greu amgylchedd prydferth a chroesawgar ar gyfer ein gwesteion. Bydd eich cyfrifoldebau yn cynnwys

- Glanhau ardaloedd cyhoeddus y gwesty i safon uchel
- Glanhau a threfnu'n drylwyr ein ystafelloedd gwely en-suite a bwthyn gwyliau
- Ailstocio cyflenwadau hanfodol ac adnoddau ar gyfer cyrhaeddiad ein gwesteion
- Cynnal gwiriadau stoc a rhoi gwybod am ddifrod neu anghenion cynnal a chadw
- Cadw at ein safonau uchel o lanweithdra ac arferion hylendid

**Ymgeisydd delfrydol:**

- Dim profiad? Dim problem! Er bod profiad yn ddymunol, bydd hyfforddiant llawn yn cael ei ddarparu – rydym yn chwilio am rywun sy'n hyblyg, yn weithgar ac yn gydwybodol.
- Llygad craff am fanylion gyda safon uchel o lanweithdra
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac yn effeithlon, gan reoli eich amser i gyd-fynd â'r amserlenni glanhau
- Dibynadwyedd a phrydlondeb yn hanfodol
- Ymddygiad cyfeillgar a phroffesiynol, gan ddeall pwysigrwydd cynnal preifatrwydd a darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i'n cwsmeriaid gwerthfawr

**Math o swydd**: Llawn Amser / Rhan-amser

**Cyflog:** Cyflog cystadleuol ac oriau gwaith hyblyg

**Rydym yn cynnig**

- Cyfleoedd hyfforddi a datblygu llawn (NVQ ar gael)
- Pensiwn cwmni
- Amgylchedd tîm cefnogol mewn gwesty bywiog a phoblogaidd

Os oes gennych angerdd am y diwydiant lletygarwch ac mae gennych ddiddordeb brwd mewn cyfrannu at brofiadau cadarnhaol ein cwsmeriaid, hoffem glywed gennych.

**Gwnewch gais nawr a dewch yn aelod gwerthfawr o Dîm yr Harbourmaster!**

**Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol at:- hr@flatrockgroup.co.uk neu ffoniwch 01545570755 i drefnu sgwrs anffurfiol gyda'r Rheolwr Cyffredinol.**